

Jeremy Miles AS

Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg

Dyddiad | Date: 7 April 2022

Pwnc | Subject: Absenoldeb disgyblion

Annwyl Jeremy

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ar 31 Mawrth. Rydym wedi cytuno i gynnal amrywiaeth o waith ar wahanol faterion, gan gynnwys absenoldeb disgyblion. Byddwn yn cynnal ymchwiliad byr a phenodol i hyn dros dymor yr haf.

Rydym yn gwybod – yn sgil eich [datganiad fis Hydref diwethaf](#) – bod hwn yn destun pryder i'r Llywodraeth, a'ch bod wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i gynnal adolygiad cynhwysfawr o batrymau presenoldeb, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol. Rydym yn deall mai'r bwriad oedd i'r gwaith hwn olygu gweithio gyda rhanddeiliaid addysg er mwyn casglu gwybodaeth am y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, a pha fesurau/ymyriadau sydd eu hangen i ailennyn diddordeb dysgwyr yn well.

Er mwyn helpu i lywio ein dull o weithredu, dyma ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad hwn, unrhyw ganfyddiadau cychwynnol a beth yw'r camau nesaf ar gyfer datblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol ar y mater pwysig hwn. Byddwn yn ystyried ein cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn ddechrau mis Mai, felly byddai'n ddefnyddiol petai ymateb yn ein cyrraedd erbyn 29 Ebrill, os yw'n bosibl.



Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.